**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED DYFFRYN ARDUDWY A TALYBONT A GYNHALIWYD YN NEUADD GYMUNEDOL, DYFFRYN ARDUDWY AM 6.30 O'R GLOCH 5.5.26**

**5.1 YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Nia Rees (Is-Gadeirydd), Jennifer Yuill, John Ceri Evans, Evan Owen.

**5.2 PRESENNOL**
Cyng. William Hooban (Cadeirydd), Deilwen Anderson, Edward Williams, Beth Bailey, Sian Edwards, Sion Ifor Williams, Gwynfor Evans, Edward Griffiths.

Croesawodd y Cadeirydd Mr. Steve Beech, Swyddog Cefnogi Cymunedau Meirionnydd, Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod i drafod y gwhanol grantiau oedd ar gael i'r Cyngor a'r neuadd bentref. Fe aeth Mr. Beech drwy'r gwahanol grantiau oedd ar gael a cafwyd wybod bod grant i adnewyddu mannau cyhoeddus a bod ceisiadau yn cau ar y 15ed o fis nesa, grant cronfa cymorth cymunedol hyd at £20k a ceisiadau yn cau ar yr 20ed o'r mis hwn, grant Cronfa'r Degwm hyd at £25k.

**5.3 CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD**
Nid oedd gan y Cadeirydd unrhyw gyhoeddiadau i'w gwneud.

**5.4 COFNODION**
Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Ebrill 7ed 2026 fel rhai cywir.

**5.5 MATERION YN CODI O'R COFNODION**
Item 4.9 (C) gofynnodd y Cyng. William Hooban i'r cwestiynau hyn oedd wedi ei ofyn yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor ynglyn ar neuadd bentref gael eu cofnodi – a yw y neuadd mewn mesurau arbennig ar ateb oedd na, eisiau gwybod pam bod rhai o'r cyhoedd ddim yn cael bod yn rhan o bwyllgor y neuadd ar ateb oedd mae Aelodau y Cyngor Cymuned oedd yr unig Ymddiredolwyr ond byddant yn falch o gael help gwirfoddolwyr gyda rhai gweithgareddau sydd yn cael eu trefnu a'i cynnal gan bwyllgor y neuadd ond ddim yn cael bod yn aelod o bwyllgor y neuadd.

**5.6 DATGAN BUDDIANT**
Datganodd y Cyng. William Hooban ddiddordeb yn y mater gyda'r cae peldroed.
Datganodd y Cyng. Beth Bailey ddiddordeb yn y mater gyda'r cae peldroed
Ni lofnodwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddynt am eu bod wedi gwneud hyn yn barod yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor a bod y diddordeb yn y mater hwn yn rhedeg yn barhaol.

**5.7 MATERION CYNGOR GWYNEDD**
Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Eryl Jones Williams:- Ychydig iawn o gyfarfodydd a phenderfyniadau oherwydd etholiadau Llywodraeth Cymru sydd i ddod ar 7 Mai. Mae mae un o Gynghorwyr Sir Gwynedd wedi cael ei atal gan Blaid Cymru am sylwadau honedig ar bolisi iaith Cyngor Gwynedd. Ar 14 Mai bydd y Cyngor llawn yn penderfynu ar Dreth Dwristiaeth. Os bydd Gwynedd yn mynd yn ei flaen, yna RHAID i'r Cyngor i ymgynghori'n helaeth gyda'r trigolion lleol ac â'r rhai yn y diwydiant lletygarwch. O heddiw, Ebrill 2026, bydd ceisiadau ar gyfer Cynllun Cartrefi Gwynedd yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan Gyngor Gwynedd. Mae'r trefniant newydd hwn yn dilyn y trefniant blaenorol, lle'r oedd Tai Teg yn gweinyddu'r cynllun ar ran y Cyngor. O heddiw, dylai unrhyw un sydd eisiau dechrau cais newydd gysylltu â Chyngor Gwynedd yn uniongyrchol, boed trwy wefan y Cyngor neu drwy gysylltu â thîm tai'r Siop Un Stop. Mae'r newid hwn yn dilyn lansiad Siop Un Stop Tai Cyngor Gwynedd, sy'n darparu un pwynt cyswllt i drigolion sy'n chwilio am gyngor a chymorth tai. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd y Cyngor yn dechrau gweinyddu ei cynlluniau tai fforddiadwy'n uniongyrchol, gan wneud yn haws i drigolion gael mynediad at wasanaethau tai mewn un lle.
Mae hwn yn un o nifer o gynlluniau gan Gyngor Gwynedd i sicrhau bod mwy o bobl yn cael mynediad at dai fforddiadwy yn y sir trwy'r Cynllun Gweithredu Tai. Mae rhain yn cynnwys adeiladu mwy o dai, dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd a

mynd i'r afael â digartrefedd trwy ddatblygu mwy o dai â chymorth yn y sir. Bydd y newidiadau hyn yn digwydd cam wrth gam, gan gychwyn gyda'r Cynllun Prynu Cartref a gwerthusiadau Adran 106. Dywedodd Carys Fôn Williams, Pennaeth Adran Tai a Eiddo Cyngor Gwynedd: “Mae gweinyddu’r cynllun yn uniongyrchol drwy Siop Un Stop Tai Cyngor Gwynedd yn gam allweddol tuag at gyflawni nod strategol ein Cynllun Gweithredu Tai, sef creu un lleoliad lle gall trigolion Gwynedd gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chefnogaeth ynglŷn â thai. Bydd swyddogion y Siop Un Stop, sy'n brofiadol ac yn arbenigo mewn tai, ar gael i helpu unrhyw un sydd am gymorth o dan Gynllun Prynu Cartref, a unrhyw gynllun tai neu ymholiad arall. “Ers ei lansio yn 2022, mae Cynllun Prynu Cartref Gwynedd wedi helpu 86 o gartrefi i brynu tŷ yn eu cymunedau lleol. Mae'r cynllun yn chwarae rôl bwysig yn y gefnogaeth y mae'r Cyngor yn ei darparu i helpu pobl leol sy'n dymuno byw yn eu ardal ond sy'n ei chael hi'n anodd fforddio tŷ ar y farchnad agored." Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwneud cais am Gynllun Prynu Cartref Gwynedd ddod o hyd i ragor o wybodaeth am feini prawf cymhwystra a'r broses gais ar wefan Cyngor Gwynedd:
www.gwynedd.llyw.cymru/GwyneddHomebuy. Neu, gall trigolion gysylltu â'r Cyngor yn uniongyrchol:

- tai@gwynedd.llyw.cymru
- 01286 685100

Bydd Tai Teg yn parhau i weinyddu cynlluniau cartrefi fforddiadwy ar gyfer cymdeithasau tai fel Adra, Grŵp Cynefin, North Wales Housing a Clwyd Alyn.

Rwyf ar gael ar 01341242758 neu e.joneswilliams@btinternet.com, hefyd mae fy manylion cyswllt ar wefan Cyngor Gwynedd

**5.8 CEISIADAU CYNLLUNIO**

Nid oedd unrhyw geisiadau cynllunio wedi eu derbyn ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

**5.9 MATERION YN CODI**

**A Ethol Swyddogion am y flwyddyn 2026/27:-**

Cadeirydd:- Cyng. Edward Griffiths
Is-Gadeirydd:- Cyng. Jennifer Yuill
Pwyllgor Elin Humphreys:- Cadeirydd ar Cyng. Nia Rees a Sian Edwards (eilydd)
Is-bwyllgor cynllunio:- Cyngor Llawn
Is-bwyllgor cyllid:- Cyngor Llawn
Is-bwyllgor fynwent:- Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Cyng. Edward Williams, Sion Ifor Williams a Deilwen Anderson
Is-bwyllgor seddi:- Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Cyng. Edward Williams, Sion Ifor Williams, Gwynfor Evams a William Hooban
Is-bwyllgor parc chwarae:- Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Cyng. Sian Edwards, Edward Williams, Beth Bailey a Nia Rees
Is-bwyllgor Nadolig:- Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Cyng. Beth Bailey, Sian Edwards, Deilwen Anderson, Nia Rees, Gwynfor Evans a William Hooban.
Un Llais Cymru:- Cadeirydd ar Is-Gadeirydd
Llwybrau cyhoeddus:- Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Cyng. Edward Williams, Sion Ifor Williams, Sian Edwards a Gwynfor Evans
Is-bwyllgor CCTV - Cadeirydd, Is-Gadeirydd ar Cyng. William Hooban
Llywodraethwyr Ysgol Gynradd:- Cyng. Beth Bailey

**B Cynllun Cyllideb**

Adroddwyd bod £2,197.81 (yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd, a bod hyn yn £1,154.19 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn.

**C Cae Peldroed**

Cafwyd wybod bod neb wedi clywed ddim byd pellach gan Mr. Michael Evans o ADRA ynglyn ar safle uchod a datganodd y Clerc ei bod wedi anfon e-bost arall ato ond nid wedi clywed ddim byd yn nol. Adroddodd y Cyng. William Hooban ei fod wedi cael sgwrs ffon gyda Mr. Evans a bod wedi cael gwybod ganddo bod pob dim mewn trefn. Cytunodd y Cyng. Hooban ei ffonio eto.

**D Seddi Cyhoeddus**

Cytunwyd bod y Cyngor yn ceisio am grant i gael seddi newydd a cytunodd y Cyng. Edward Williams gael prisiau ag anfon map yn dangos gwahanol leoliadau mae angen seddi i'r Clerc. Cafwyd wybod bod pris wedi cael ei dderbyn gan Dylan Trehaern i wneud gwaith o dyllu allan yn Parc Penybont ag wrth ymyl y lloches bws ger maes parcio Llidiart y Parc. Cytunwyd derbyn y pris hwn.

**E Camerau CCTV**

Cytunwyd i adael y mater hwn tan mis nesa.

**F Adolygu y Rheolau Sefydlog ar Rheolau Ariannol**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi rhoid y mater hwn ar yr agenda oherwydd bod y Rheolau uchod i fod i gael eu adolygu yn flynyddol ond nid oedd y Cyngor hwn wedi gwneud hyn ers 2023. 'Roedd y Clerc wedi anfon copiau o'r Rheolau hyn ymlaen i bob Aelod cyn y cyfarfod hwn er mwyn iddynt gael golwg arnynt. Cytunwyd bod y Rheolau Sefydlog ag y Rheolau Ariannol yn iawn.

**G Adroddiad Blynyddol y Cyngor**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi paratoi y bedwerydd adroddiad blynyddol ar ran y Cyngor ag ei bod wedi anfon hon ymlaen i bob Aelod o flaen y cyfarfod. Cytunwyd bod yr adroddiad hon yn iawn.

**H Pleidlais o Ddiffyg Hyder yn y Cyng. Eryl Jones Williams**

Roedd rhai Aelodau wedi gofyn i'r mater hwn gael ei roi ar yr agenda. Mynegwyd pryder nad oedd y Cyng. Jones Williams yn cyflawni ei ddyletswyddau fel Cynghorydd Sir ar gyfer yr ardal, gan nodi nad yw'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor Cymuned, er ei fod yn mynychu cyfarfodydd Corff Llywodraethu'r Ysgol Gynradd. Dywedodd yr Aelodau eu bod yn dymuno cael gwybod pam ei fod yn gwahaniaethu rhwng y ddwy rôl.

Nodwyd hefyd fod y Cyng. Jones Williams yn un o Ymddiriedolwyr y Neuadd Bentref a gysylltodd â Mantell Gwynedd y llynedd, gan arwain at rwystro'r pwyllgor newydd y neuadd bentref rhag derbyn grant sylweddol a oedd i gefnogi gwaith i ailagor y caffi. Pwysleisiodd yr Aelodau fod y Cynghorydd wedi ymddiswyddo fel Ymddiriedolwr ym Medi 2024, ac felly na ddylai fod wedi bod yn rhan o'r mater ar y pryd.

Codwyd pryderon ynghylch cywirdeb y wybodaeth a rannwyd yn gyhoeddus ar gyfryngau cymdeithasol, gyda'r Aelodau yn nodi nad yw gwybodaeth o'r fath bob amser yn gywir nac yn gyson â ffynonellau swyddogol neu gadarnedig.

Mynegodd Aelodau bryder pellach nad yw'r Cyng. Jones Williams yn cyfathrebu'n glir nac yn gywir, ac nad yw'n cynnal perthnasoedd gwaith adeiladol gyda'r Cyngor Cymuned, nac yn gweithredu mewn modd tryloyw a chyfrifol.

Mynegwyd pryder pellach gan Aelodau ei fod yn cymryd credyd am waith a wnaed gan eraill o fewn y Ward.

Ar ôl trafodaeth, 'roedd yr Aelodau i gyd oedd yn bresennol heblaw am un yn cymeradwyo y bleidlais o Ddiffyg Hyder yn y Cynghorydd ag yn gofyn i'r Clerc gysylltu gyda Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd ynglyn ar mater hyn.

868...............................................Cadeirydd

**5.10 GOHEBIAETH**

**A Pwyllgor Neuadd Bentref**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn llythyr gan y pwyllgor uchod yn hysbysu y Cyngor bod angen buddsodiad sylweddol i ddiogelu dyfodol yr adeilad a bod amcangyfrif bydd y gwaith hanfodol yn cyrraedd tua £300,000 ac yn cynnwys atgyweiriadau to, brêcin strwythurol, adferiad llithriad, ail-foduro'r adeilad cyfan, a thriniaeth lleithder. Hefyd yn datgan eu bod wedi cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb i Raglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru a mae amcangyfrifedig y prosiect yn £352,168.85, gan gynnwys gwaith strwythurol, addurno a gosod cegin fasnachol, ynghyd ag adnewyddu'r gofod caffi i allu ailagor. Gall y rhaglen grant ddarparu hyd at £300,000, ac maen't yn falch o gadarnhau eu bod wedi cael eu gwahodd i gyflwyno cais llawn, ond oherwydd wrach bydd newid mewn Llywodraeth mae y cyllid hwn mewn perygl ag felly mae yn hanfodol iddynt sicrhau cyllid cyfatebol. Maen't yn gwneud cais am grant i gyrff eraill ond yn gofyn a fyddai y Cyngor yn fodlon darparu cyllid cyfatebol tuag at y swm o £52,168,85 os na fyddant yn llwyddo gyda y ceisiadau grantiau. Hefyd yn gofyn os fyddai eu ceisiadau ddim yn llwyddiannus, neu pe bai'r grant yn cael ei dynnu yn ôl oherwydd newid yn y Llywodraeth, a fyddai'r Cyngor Cymuned yn ystyried cynnig benthyciad i alluogi i waith y caffi fynd rhagddo? Mae ailagor y caffi yn allweddol i sefydlu ffynhonnell incwm gynaliadwy, ag maen't yn rhagweld y caiff unrhyw fenthyciad ei dalu'n ôl trwy incwm rhent yn y dyfodol. Maen't yn cydnabod y byddai hyn yn destun ystyriaethau cyfreithiol priodol a pharatoi cytundeb ffurfiol yn nodi telerau talu'n ôl. Cytunwyd cysylltu gyda Un Llais Cymru a gofyn am eu barn ynglyn a'r ffordd i gario ymlaen gyda'r mater hwn oherwydd bod Aelodau y Cyngor heblaw am ddau yn Ymddiredolwyr ar y neuadd bentref ag felly yn datgan buddaint yn y mater. Ni drafodwyd cynnwys y llythyr.

**B. Dwr Cymru**

Wedi derbyn e-bost ynglyn a uwchraddio Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Dyffryn Ardudwy ynghyd a newyddlen a oedd yn amlinellu y gwaith oedd yn mynd I gael ei gario allan. Datganodd y Cyng. William Hooban ei fod wedi cael gwybod gan y Cyng.Eryl Jones Williams bod cyfarfod safle yn cymeryd lle ar yr 8ed o'r mis hwn a cytunwyd bod y Cadeirydd ar Is-Gadeirydd newydd yn mynychu y cyfarfod hwn ar ran y Cyngor.

**5.11 ADRODDIAD Y TRYSORYDD**

Adroddodd y Trysorydd bod £53,105.78 yn y cyfrif rhedegol a £46,818.41 yn y cyfrif wrth gefn.

**Anfonebau angen eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

Mrs Annwen Hughes - £273.06 (cyflog) + £231.06 costau = £504.12
Gary Martayn - £444.00 - torri gwair parc chwarae, maes parcio ag amrywiol lefydd
Mr. G. J. Williams - £86.00 - torri gwair o gwmpas amrywiol lefydd yn Talybont
Pwyllgor Neuadd Bentref - £20.00 – llogi ystafell bwyllgor (Ebrill)
Mr. M. J. Kerr - £480.00 – agor bedd y diweddar Mr. John Wynne
Mr. M. J. Kerr - £500.00 – agor bedd y diweddar Ms Penelope Dangerfield
Clear Insurance - £3,297.17 - yswiriant y Cyngor am y flwyddyn
LL DIY - £805.80 - carped newydd i'r ystafell chwaraeon y neuadd
Jewson - £876.97 - nwyddau i adnewyddu ystafell chwaraeon y neuadd – cytunwyd i beidio a talu yr anfoneb hon ar hyn o bryd nes byddai yr un gyda'r swm cywir wedi ei derbyn.

Fe gafwyd drafodaeth ynglyn ar polisi yswiriant y Cyngor a cytunwyd bod y polisi yn iawn am eleni a cytunwyd i dalu yr anfoneb.

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. William Hooban a wnaeth y Cyng. Beth Bailey gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

Fe adroddodd y Trysorydd bod yr Archwiliad Mewnol wedi cael ei gwblhau a bod dim materion arwyddocaol yn codi heblaw am am y materion isod -
Argymhellir bod y Cyngor yn ymrwymo i roi sylw i'r risgiau canlynol a chymryd camau priodol i'w lliniaru:

- Risg o golledion neu daliadau anawdurdodedig wrth brosesu taliadau ar lein h.y. dim awdurdodiad deuol ar-lein ar gyfer trafodion banc.

- Risg o ddirwyon gan CThEM ar gostau staff a daliwyd heb adolygiad o'r costau ac eu datgan ar gyfer oblygiadau treth.

Adroddodd y Trysorydd ei bod wedi cwblhau'r Ffurflen Flynyddol hyd at y 31ain o Fawrth 2026, aeth yr Aelodau drwy'r ffurflen hon a chytunwyd i'w chymeradwyo a chytunwyd hefyd i'r Cadeirydd a'r Clerc/Trysorydd lofnodi hyn ar ran y Cyngor.

**Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf**

Mr. P. Hughes - £254.00 – claddu llwch y diweddar Mrs Catherine Hughes
Cyngor Gwynedd - £27,500.00 – hanner y precept

**Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

Catrin Soraya Williams – Dim - gwasanaeth cyfieithu
Jewson - £59.98- nwyddau i adnewyddu ystafell chwaraeon y neuadd
Jewson - £714.97 - nwyddau i adnewyddu ystafell chwaraeon y neuadd (anfoneb cywir wedi ei derbyn a'i thalu 19/5/26)
Biri Trading Uk - £89.99 - reflectors i fynedfa maes parcio Llidiart y Parc

**5.12 UNRHYW FATER ARALL**

Eisiau cysylltu gyda Swyddog Llwybrau, Cyngor Gwynedd i dynnu ei sylw bod tair camfa angen sylw ar Bwlch y Rhiwgyrch, Bont Fadog, Mynydd Sebonig a Hendre Eirian a drosodd i Graig Llyn ag hefyd gofyn i ramps gael eu gosod ger Bont Fadog oherwydd mae rhai hefo beiciau modur scramblers yn gadael i gatiau yn agored.
Eisiau cysylltu gyda'r Parc Cenedlaethol ynglyn ar arwyddion sydd ger Sunnysands.
Cytunwyd i gynnwys yr hysbysfwrdd newydd ar arwydd newydd ar gais grant y Cyngor Cymuned.
Estynwyd longyfarchiadau y Cyngor i'r tim peldroed dan 13 o glwb peldroed Dyffryn a Thalybont ar ennill cwpan arfordir gogledd cymru .

**ARWYDDWYD...............................................Cadeirydd**

**DYDDIAD......................................................................**